Cymru Heb Drais

# Fframwaith a rennir ar gyfer atal trais ymhlith plant a phobl ifanc

**Mae atal trais yn gofyn am weithredu ar y cyd a chydgysylltu.**

Mae Cymru Heb Drais yn fframwaith ar gyfer atal trais drwy ddull iechyd y cyhoedd. Mae'n blaenoriaethu atal cychwynnol ac ymyrraeth gynnar i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc.

## Naw egwyddor atal trais

Dylai gweithgarwch atal trais gael ei ategu gan yr egwyddorion atal trais a nodir gan blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru.

## Naw strategaeth atal trais

Mae'r naw strategaeth wrth wraidd Cymru Heb Drais. Maent yn rhychwantu'r blynyddoedd cynnar hyd at fod yn oedolion ifanc ac yn cynnwys gweithgarwch atal a all gefnogi unigolion, cymunedau cyfan a'r gymdeithas gyfan drwy ddull system gyfan.

Gallwch ddarllen rhagor am bob strategaeth yn y llawlyfr. Gallwch hefyd ddod o hyd i ddamcaniaeth newid sy'n dangos y canlyniadau a'r effeithiau allweddol a ddisgwylir os caiff pob strategaeth ei gweithredu'n effeithiol yn y llawlyfr.

## Sut datblygwyd Cymru Heb Drais?

Cyd-gynhyrchwyd Cymru Heb Drais gan Uned Atal Trais Cymru a Peer Action Collective Cymru, rhwydwaith arloesol o bobl ifanc sy'n gweithio i ddod â thrais i ben yng Nghymru.

Mae'r fframwaith wedi'i lywio gan farn a phrofiadau dros 1,000 o blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i gydgynhyrchu, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i atal trais ymhlith plant a phobl ifanc, ac arferion da byd-eang.

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

Mae Cymru Heb Drais ar gael ar ein gwefan cymruhebdrais.com lle gallwch lawrlwytho'r llawlyfr, dod o hyd i adnoddau pellach, fideos a theori newid

